

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Adelina Patti, Ysbyty
Cymunedol Ystradgynlais, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 17 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-929-7

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 20 a 21 Mehefin 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Adelina Patti - 20 o welyau yn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol a gwasanaethau adsefydlu.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd saith gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda. Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol
- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi
- Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar ward Adelina Patti yn ddiogel ac yn effeithiol, ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo.

Roedd y ward yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trwsio cloeon y drysau i'r storfa a'r olchfa.
- Storio hylifau glanhau
- Adolygu a diweddarau'r polisi trallwysu gwaed
- Gwella'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar feddyginiaeth y tu allan i oriau

- Adolygu trefniadau diogelwch yr ysbyty.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Roedd y cynlluniau gofal a'r ddogfennaeth ategol yn fanwl ac yn hawdd eu defnyddio
- Rheoli meddyginiaethau
- Atal a rheoli heintiau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar hyfforddi staff
- Adolygu'r ddarpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau
- Sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n gyfrinachol
- Cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth dda gan reolwr y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd da.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r ysbyty yn eithriadol o lân, mae'r holl staff yn gwrtais, yn gyfeillgar, yn barod eu cymwynas ac yn broffesiynol.”

“Ardderchog ym mhob ffordd. Staff, bwyd, gofal, y gallu i drafod materion â'r staff.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ac roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth tuag at y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu anghenion a dymuniadau cleifion unigol.

Dyweddod y staff wrthym:

“Caiff gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ei arfer yn dda iawn ar y ward gan bob aelod o'r tîm, gan ddeall bod pob claf yn unigryw a bod ganddo anghenion unigryw hefyd.”

Amserol

Gofal amserol

Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r cleifion mewn ffordd amserol.

Dyweddod y cleifion wrthym fod clychau galw wedi'u gosod o fewn cyrraedd a bod y staff yn ymateb iddynt yn brydlon.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau yr oedd yn well ganddynt eu defnyddio. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Roedd diwylliant y ward yn gwbl ddwyieithog. Roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal gan alluogi cleifion a pherthnasau i gyfathrebu mewn ffordd gwbl naturiol yn y naill iaith a'r llall.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod wedi cael cynnig y dewis o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith ac roedd sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion a'r perthnasau Cymraeg eu hiaith sgwrsio â nhw yn eu mamiaith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dyweddod y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

Dyweddod y cleifion wrthym fod aelodau o'r staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i'r cleifion a'u teuluoedd allu cwrdd yn breifat ac roeddent yn barod i hwyluso hyn drwy ddefnyddio ystafelloedd nad oeddent yn cael eu defnyddio ar y pryd.

Roedd asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen.

Roedd ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion a gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu cynnal adeg derbyn ar gyfer briwiau pwysu a chwympiadau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Fodd bynnag, gwelsom fod lle storio yn broblem a bod cyfarpar yn cael ei storio mewn lleoedd amrywiol o amgylch y ward h.y. gwelyau, matresi, sgriniau a chadeiriau nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gael ar y ward.

Gwelsom hefyd nad oedd y cloeon ar y drysau sy'n arwain i'r olchfa a'r storfa yn gweithio. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ystafelloedd hyn sy'n peri risg i gleifion os byddant yn eu llyncu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cloeon ar y drysau sy'n arwain i'r olchfa a'r storfa yn cael eu trwsio a bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym hefyd ei bod yn ofynnol i'r staff gloi'r holl ysbyty am 9.30pm bob nos. Fel rhan o'r broses, roedd dau aelod o'r staff yn mynd i bob ystafell ac yn sicrhau bod yr holl ffenestri a drysau wedi'u cau a'u cloi. Yn ogystal â pheri problem o ran diogelwch y staff, mae hyn hefyd yn golygu bod angen i ddau aelod o'r staff adael ardal y ward am gyfnod sylweddol o amser. Hefyd, cawsom wybod nad yw pob camera diogelwch o amgylch safle'r ysbyty yn gweithio. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y ddyfais blïp i'w defnyddio mewn argyfwng yn gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau diogelwch presennol er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn ddiogel.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn mannau strategol o amgylch y ward.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Rydym yn awgrymu y dylid arddangos canlyniadau archwiliadau o'r fath i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Diogelu plant ac oedolion

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Roedd polisi trallwysu gwaed ar waith. Fodd bynnag, nodwyd bod angen ei adolygu. Yn ogystal, nid oedd unrhyw weithdrefn weithredu safonol na chynllun gofal penodol ar waith i reoli trallwysadau gwaed a chynhyrchion gwaed.

Dywedwyd wrthym fod y staff sy'n ymwneud â thrallwysu gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant ac yn ymgymryd ag asesiadau cymhwysedd rheolaidd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant wedi dod i ben oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisi trallwysu gwaed yn cael ei ddiwygio a bod gweithdrefn weithredu safonol a chynllun gofal penodol ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n ymwneud â thrallwysu gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ward a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddar'u'n rheolaidd.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dau glaf a oedd yn destun trefniadau arsylwi uwch yn gwisgo bandiau arddwrn. Roedd hyn yn peri risg o wallau a'r posibilrwydd y byddai'r cleifion yn cael y feddyginiaeth anghywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi rheoli meddyginiaeth drwy sicrhau bod pob claf yn gwisgo bandiau arddwrn â manylion adnabod.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael problemau weithiau wrth gael gafael ar feddyginiaeth y tu allan i oriau h.y. gyda'r nos, yn ystod y nos ac ar benwythnosau, ac y gall hyn achosi oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer dosbarthu meddyginiaeth y tu allan i oriau.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnwr Cenedlaethol (NEWS) a llwybr gofal sepsis wedi'u hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal.

Maeth a hydradu

Roedd y bwyd a'r diod a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb ruthro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle bo'u hangen, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hylif priodol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda.

Dywedodd y staff wrthym:

“Mae staff y gegin yn dda iawn os bydd ein cleifion am gael rhywbeth o'u dewis i'w fwyta, ac mae byrbrydau ar gael.”

Cofnodion y cleifion

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda iawn, gyda gwerthusiadau ysgrifenedig cynhwysfawr yn cael eu cwblhau gan y staff gofal ar ddiwedd pob shift a oedd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom aelodau o'r staff yn ceisio darparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am lleoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod, ar adegau, yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion gofal amrywiol a oedd yn deillio o'r cymysgedd o gleifion.

Gwelsom fod dau glaf a oedd yn destun trefniadau arsylwi uwch yn eistedd ger gorsaf y nyrsys fel y gallai'r staff eu monitro a diwallu eu hanghenion. Nid dyma oedd y lleoliad gorau i'r cleifion hyn gan fod yr ardal yn brysur ac yn swllyd ar adegau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cymysgedd y cleifion ar y ward er mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd adolygu'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion cleifion sy'n destun trefniadau arsylwi uwch er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau mewn lleoliad mwy addas ar y ward.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwr y ward. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y gellid gwella'r cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym, oherwydd pwysau gwaith, nad ydynt bob amser yn cael amser gwarchoddedig er mwyn cwblhau'r hyfforddiant.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael amser gwarchoddedig, a hynny y tu hwnt i ardal y ward glinigol, er mwyn cwblhau hyfforddiant.

Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu

o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol.

Dyweddodd y staff wrthym y byddai hyfforddiant ar ganwlâu a rhagnodi o fudd iddynt. Byddai hyn yn ehangu sgiliau'r staff ac yn gwella lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion yn yr ysbyty.

Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant ar ganwlâu a rhagnodi i'r staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Dyweddwyd wrthym fod y ward, a'r ysbyty yn gyffredinol, yn cael eu cefnogi'n dda a'u gwerthfawrogi gan y gymuned leol.

Dyweddodd y cleifion a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod diwylliant agored a llawn ymddiriedaeth ar y ward.

Rhoddodd cleifion a oedd ar fin cael eu rhyddhau o'r ward ddisgrifiadau personol o sut roedd diwylliant y ward a'r staff wedi helpu i wella eu llesiant.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda a bod rheolwr y ward yn eu cefnogi'n dda. Fodd bynnag, roedd y staff yn feirniadol wrth sôn am y diffyg cyfathrebu gan reolwyr ar lefel uwch. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae staff y ward yn gweithio'n dda fel tîm ar y cyfan, ond weithiau nid yw'r cyfathrebu cystal ag y dylai fod.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwella'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau

o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Fodd bynnag, sawl gwaith yn ystod yr arolygiad, gwelsom enghreifftiau o wybodaeth gyfrinachol am gleifion a oedd wedi cael ei gadael heb oruchwyliaeth mewn troliau ac ystafelloedd heb eu cloi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei chadw'n ddiogel bob amser.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis meddyg teulu lleol yn gefnogol iawn a bod meddyg teulu yn ymweld bob dydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cael gafael ar gymorth gan feddyg teulu y tu allan i oriau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r ddarpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol ac effeithiol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Adelina Patti, Ysbyty Ystradgynlais

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Adelina Patti, Ysbyty Ystradgynlais

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod lle storio yn broblem ar y ward a bod cyfarpar yn cael ei storio mewn lleoedd amrywiol o amgylch y ward h.y. gwelyau, matresi, sgriniau a chadeiriau nad oeddent yn cael eu defnyddio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gael ar y ward.	<ul style="list-style-type: none">• Arweinydd y shifft i sicrhau bod y cyfarpar yn y lleoliad cywir.• Mae proses ar waith ar gyfer cael gwared ar gyfarpar nad oes ei angen mwyach.• Nodwyd lle storio a chadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol fod y cam gweithredu wedi'i gwblhau yn ystod ymweliad â'r safle ym mis Medi 2023.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Medi 2023

<p>Nid oedd y cloeon ar y drysau sy'n arwain i'r olchfa a'r storfa yn gweithio. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ystafelloedd hyn sy'n peri risg i gleifion os byddant yn eu llyncu.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cloeon ar y drysau sy'n arwain i'r olchfa a'r storfa yn cael eu trwsio a bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Archebwyd cypyrddau newydd gyda chloeon arnynt er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. • Gweithredwyd ar unwaith er mwyn sicrhau storfa fwy diogel gan ddefnyddio cwpwrdd y gellir ei gloi. • Cafodd cloeon y drysau eu trwsio ac maent yn gweithio, caiff pob aelod o staff ei hysbysu bod angen cadw'r drysau ar glo 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Medi 2023</p>
<p>Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i'r staff gloi'r holl ysbyty am 9.30pm bob nos. Fel rhan o'r broses, roedd dau aelod o'r staff yn mynd i bob ystafell ac yn sicrhau bod yr holl ffenestri a drysau wedi'u cau a'u cloi. Yn ogystal â pheri problem o ran diogelwch y staff, mae hyn</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau diogelwch presennol er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn ddiogel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes gofyniad i ddau aelod o'r staff adael y ward i gloi'r safle bob nos. • Mae'r person olaf sy'n gadael y shifft hwyr am 20.00 o'r gloch yn cloi 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol</p>	<p>Wedi'i gau</p> <p>Wedi'i gau</p>

<p>hefyd yn golygu bod angen i ddau aelod o'r staff adael ardal y ward am gyfnod sylweddol o amser. Hefyd, cawsom wybod nad yw pob camera diogelwch o amgylch safle'r ysbyty yn gweithio. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y ddyfais blîp i'w defnyddio mewn argyfwng yn gweithio.</p>		<p>drws ffrynt yr ysbyty ac nid yw'n gyfrifol am gadarnhau bod unrhyw ardaloedd eraill wedi'u cloi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ym mhob adran sicrhau bod eu hardaloedd yn ddiogel cyn gadael am y diwrnod. • Cafodd hyn ei gadarnhau drwy fforwm cydlynu'r safle. • Cynhaliwyd adolygiad o ddiogelwch y safle gan y Pennaeth cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth. • Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wrthi'n cynnal adolygiad diogelwch ar gyfer ardal Powys gyfan. 		<p>Wedi'i gau</p> <p>Wedi'i gau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ionawr 2024</p>
--	--	---	--	--

<p>Roedd hyfforddiant staff ar drallwysu gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed wedi dod i ben oherwydd cyfyngiadau COVID-19.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisi trallwysu gwaed yn cael ei ddiwygio a bod gweithdrefn weithredu safonol a chynllun gofal penodol ar waith.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n ymwneud â thrallwysu gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Aildosbarthwyd y polisi wedi'i ddiweddarau o 2023 i dîm nyrsio'r ward. • Datblygwyd cynllun i'r ward er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Nid oedd dau glaf a oedd yn destun trefniadau arsylwi uwch yn gwisgo bandiau arddwrn. Roedd hyn yn peri risg o wallau a'r posibilrwydd y byddai'r cleifion yn cael y feddyginiaeth anghywir.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi rheoli meddyginiaeth drwy sicrhau bod pob claf yn gwisgo bandiau arddwrn â manylion adnabod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffwyd pob aelod o staff am y polisi a'r weithdrefn. • Rhoddwyd proses wythnosol ar waith i archwilio bandiau arddwrn a rhoddir gwybod am eithriadau bob mis i Reolwr y Gwasanaethau Cymunedol ar sail un i un a chaiff unrhyw faterion eu huwchgyfeirio 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		<p>ymhellach drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch y gwasanaethau cymunedol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd adborth ar unwaith i dîm y ward. 		
<p>Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cael problemau weithiau wrth gael gafael ar feddyginiaeth y tu allan i oriau h.y. gyda'r nos, yn ystod y nos ac ar benwythnosau, ac y gall hyn achosi oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer dosbarthu meddyginiaeth y tu allan i oriau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaed cais i'r tîm rheoli meddyginiaethau i adolygu'r broses. • Gwneir hyn drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. • Gofynnwyd am drefniadau cludiant er mwyn casglu meddyginiaeth o fferyllfeydd aciwt y bwrdd iechyd lleol y tu allan i oriau. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cymysgedd y cleifion ar y ward er</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae adolygiad dyddiol o aciwtedd cleifion ar 	<p>Pennaeth Nyrzio</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

<p>gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol.</p> <p>Dywedodd y staff wrthym eu bod, ar adegau, yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion gofal amrywiol a oedd yn deillio o'r cymysgedd o gleifion.</p>	<p>mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.</p>	<p>waith gan ddefnyddio llwyfan Safecare.</p> <ul style="list-style-type: none"> Trefnwyd bod mwy o staff ar gael er mwyn gallu darparu lefelau gofal gwell. Mae adolygiad staffio nyrsys yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Cafodd y prosesau uwchgyfeirio eu cadarnhau â thîm y ward. Cytundeb i dderbyn hyd at bedwar claf cymhleth. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	
<p>Roedd dau glaf a oedd yn destun trefniadau arsylwi uwch yn eistedd ger gorsaf y nyrsys fel y gallai'r staff eu monitro a diwallu eu hanghenion. Nid dyma oedd y lleoliad gorau i'r cleifion hyn</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd adolygu'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion cleifion sy'n destun trefniadau arsylwi uwch er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau mewn lleoliad mwy addas ar y ward.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae adolygiad dyddiol o aciwtedd cleifion ar waith gan ddefnyddio llwyfan Safecare. Trefnwyd bod mwy o staff ar gael er mwyn 	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>gan fod yr ardal yn brysur ac yn swllyd ar adegau.</p>		<p>gallu darparu lefelau gofal gwell.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae adolygiad staffio nyrsys yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. • Cafodd y prosesau uwchgyfeirio eu cadarnhau â thîm y ward. • Cytundeb i dderbyn hyd at bedwar claf cymhleth. 		
<p>Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym, oherwydd pwysau gwaith, nad ydynt bob amser yn cael amser gwarchoddedig er mwyn cwblhau'r hyfforddiant.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael amser gwarchoddedig, a hynny y tu hwnt i ardal y ward glinigol, er mwyn cwblhau hyfforddiant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff diwrnodau hyfforddiant eu cynnwys yn y broses rhestrau gwaith er mwyn sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant gorfodol eu diwallu. 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Hydref 2023</p>

<p>Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff diwrnodau hyfforddiant eu cynnwys yn y broses rhestrau gwaith er mwyn sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant gorfodol eu diwallu. 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Dywedodd y staff wrthym y byddai hyfforddiant ar ganwlâu a rhagnodi o fudd iddynt. Byddai hyn yn ehangu sgiliau'r staff ac yn gwella lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion yn yr ysbyty.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant ar ganwlâu a rhagnodi i'r staff.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynllun ar waith gyda'r tîm addysg i ddarparu hyfforddiant ar ganwlâu Mae hyn yn cynnwys cymhorthion hyfforddiant i alluogi'r tîm lleol i gynnal sesiynau ymarfer i gynnal cymwyseddau. • Cytunwyd ar gyllid 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Fodd bynnag, roedd y staff yn feirniadol wrth sôn am y diffyg cyfathrebu gan reolwyr ar lefel uwch.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwella'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr y gwasanaethau cymunedol yn bresennol ar y safle ddwywaith yr wythnos ac yn bresennol ar y ward. 	<p>Pennaeth Nyrzio</p>	<p>Hydref 2023</p>

- Caiff cyfarfodydd rheolwyr y ward eu cynnal ddwywaith y mis i drafod ansawdd a diogelwch.
- Caiff cyfarfodydd un i un misol eu cynnal â rheolwyr y ward a rheolwr y gwasanaethau cymunedol.
- Caiff cyfarfod uwch-arweinwyr misol ei gynnal â'r Pennaeth Nyrso.
- Caiff cyfarfodydd staff misol eu cynnal ar y ward er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu.
- Dylid sicrhau bod y byrddau cyfathrebu ar y ward yn cynnwys enw a manylion cyswllt pob

		<p>rheolwr sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff arolwg staff ei gynnal er mwyn cael rhagor o adborth. 		
<p>Nid oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu, ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd dogfen ei rhannu ym mis Ebrill 2023 a chafwyd trafodaeth yn un o gyfarfodydd y ward. • Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r arweinydd ansawdd a diogelwch i hwyluso cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gonestrwydd. • Caiff pryderon eu huwchgyfeirio drwy gyfarfod ansawdd a diogelwch y grŵp gwasanaeth. 	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Tachwedd 2023</p>

<p>Sawl gwaith yn ystod yr arolygiad, gwelsom enghreifftiau o wybodaeth gyfrinachol am gleifion a oedd wedi cael ei gadael heb oruchwyliaeth mewn troliâu ac ystafelloedd heb eu cloi.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei chadw'n ddiogel bob amser.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd cyfarfod staff yn syth ar ôl yr ymweliad. • Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o'r staff yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. • Mae swyddfa'r meddyg bellach wedi'i chloi bob amser, ac mae arwydd ar y drws. 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Roedd y practis meddyg teulu lleol yn gefnogol iawn ac roedd meddyg teulu yn ymweld bob dydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cael gafael ar gymorth gan feddyg teulu y tu allan i oriau.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r ddarpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol ac effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae adolygiad lefel gwasanaeth wrthi'n cael ei gynnal. 	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol</p>	<p>Tachwedd 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Linzi Shone

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio Proffesiynol

Dyddiad: 22/09/2023